

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 11) 2022**

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn rhoi a diwygio'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr Atodlenni isod.
2. Gellir gweld manylion llawn y cynnig, gan gynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig a Chynlluniau Rhif (T/22/63/WS) ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/legalnotices ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a allai fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF964) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **Dydd Gwener 13 Ionawr 2023** ac mae rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Atodlenni Map AX43 ac AW43

Cynnig Gwahardd Aros Ar Unrhyw Adeg

Ffordd ddiennw yn arwain at Barc Busnes Maes Awyr Caerdydd, Y Rhws

1. Ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Ffordd Ddiennw sy'n arwain i Ganolfan Hyfforddi Coleg y Barri, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o oddeutu 103 metr.
2. Ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â'r ffordd fynediad i DNATA Catering, i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain yna i'r de-ddwyrain yna i'r de-orllewin am bellter o tua 169 metr.
3. Ar ochr y de-ddwyrain, o ffordd ddiennw sy'n arwain i Porthkerry Road, tua'r gogledd-ddwyrain am oddeutu 60 metr.

Ffordd Fynediad yn arwain i DNATA Catering

4. Ar ochr y de-orllewin o'r gyffordd â'r ffordd ddiennw o flaen Parc Busnes Maes Awyr Caerdydd tua'r gogledd-orllewin am 19 metr.
 5. Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â'r ffordd ddiennw o flaen Parc Busnes Maes Awyr Caerdydd tua'r gogledd-orllewin am 17 metr.
- Ffordd Fynediad yn arwain i Aircraft Tool Hire
6. Ar y ddwy ochr o'r gyffordd â'r ffordd ddiennw o flaen Parc Busnes Maes Awyr Caerdydd tua'r de-ddwyrain am 10 metr.
- Ffordd ddiennw yn arwain i Ganolfan Hyfforddi Coleg y Barri, Y Rhws
7. Ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â'r ffordd ddiennw o flaen Parc Busnes Maes Awyr Caerdydd tua'r gogledd-orllewin am 30 metr.
 8. Ar ochr y de-orllewin o fan canol y gyffordd â'r ffordd ddiennw sy'n arwain i adeilad terfynfa Maes Awyr Caerdydd, i'r gogledd-orllewin am bellter o oddeutu 54 metr.

Ffordd ddiennw yn arwain i Porthkerry Road, Y Rhws

9. Ar y ddwy ochr o'r gyffordd â chylchfan Parc Busnes Maes Awyr Caerdydd tua'r de-ddwyrain am 13 metr.

Dyddiad 15 Rhagfyr 2022.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA